# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 15.09.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yma yn unig.

**2. CADEIRYDDIAETH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG A'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Gyfreithiwr yn manylu ar anfodlonrwydd y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf i allu ethol un aelod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

Wrth osod y cefndir, nodwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog wedi ei sefydlu i ymdrin â materion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae yn ofyniad statudol i sefydlu'r pwyllgor hwn ac ni ellir ystyried unrhyw fater arall.

O ganlyniad sefydlwyd y Pwyllgor Cyffredinol i benderfynu ar faterion eraill. Yn gyfansoddiadol maent yn ddau bwyllgor gwahanol sydd yn cynnal cyfarfodydd arwahan. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd y ddau bwyllgor yn cynnwys yr un 15 aelod fel y mae wedi ei nodi yn y Cyfansoddiad.

Fel rheol gyffredinol, nodir yn y Cyfansoddiad na all yr un aelod fod yn Gadeirydd ar fwy nag un Pwyllgor. O dan y Cyfansoddiad presennol, rhaid penodi dau aelod gwahanol i gadeirio'r pwyllgorau.

Mynegwyd Aelodau'r Pwyllgor, fel ag y gwnaed yn y cyfarfod diwethaf (23.6.2014), y dylid caniatáu'r un aelod i gadeirio'r ddau bwyllgor. Golygai hyn y byddai angen diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i'r Pwyllgorau hyn yn unig, gan gyflwyno argymhelliad i gyfarfod nesaf y Cyngor am gymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I GYFARFOD NESAF O'R CYNGOR LLAWN, (9.10.14) GYMERADWYO'R CAIS I DDIWYGIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR (Rhan 4/ Rheolau Gweithdrefn/10 Para 1,2 a 5) AR GYFER Y DDAU BWYLLGOR TRWYDDEDU YN UNIG**

**3. ETHOL IS –GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Huw Edwards yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yma yn unig

**4. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Lloyd Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Llywarch Bowen Jones a Peter Read

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**6. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**7. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2014, fel rhai cywir.

**8. DIWEDDARU GEIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio yn datgan bod angen gwneud man newidiadau i eiriad Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni / Hurio Preifat er mwyn ei ddiweddaru i gyd fynd a threfniadau gweinyddu prosesu trwyddedu tacsis cyfredol.

Polisi diwygiedig Gwynedd wedi ei gyflwyno i'r Aelodau
Newidiadau yn cynnwys:

- Dileu manylion pwyntiau cyswllt swyddogion yr Uned Drwyddedu nad ydynt yn gyfredol bellach
- Newid pob cyfeiriad at 'drwyddedai cerbyd' i 'berchennog cerbyd'
- Dileu cymal (d) o amod 9 yn ei gyfanrwydd gan fod yn cyfeirio at broses o drosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall. Fe dderbyniwyd cyngor cyfreithiol yn ddiweddar i beidio caniatáu trosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall gan nad oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth berthnasol i ganiatáu proses o'r fath.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R MAN NEWIDIADAU I EIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT.**

**9. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR**

Yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23.6.2014, cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cynnig i godi holl ffioedd tacsis gan 19.78%. Nodwyd y bydd y cynnydd arfaethedig yn amodol ar ymgynghoriad statudol gyda'r diwydiant tacsis a bydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.

Yn unol ag Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaeth Amrywiol)1976, rhaid i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol. Cyflwynwyd rhybudd yn y wasg ar y 16.7.2014 a rhoddwyd y manylion ar wefan y Cyngor. Yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol, ysgrifennwyd at bob perchennog cerbyd tacsi yng Ngwynedd (oddeutu 400) yn egluro yn llawn y rheswm dros yr angen i gynyddu ffioedd. Daeth cyfnod yr ymgynghoriad i ben 13.8.2014 ac fe dderbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu'r cynnydd.

Ystyriwyd y gwrthwynebiad gan y Pwyllgor. Mynegwyd siom mai un unigolyn yn unig oedd wedi cyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig i'r cynnydd ar sail,

- bod cynnydd sylweddol eisoes wedi ei gyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf i gostau ffioedd trwyddedu tacsis
- Pryder bod costau ychwanegol yn golygu na fydd yn bosib cyflogi mwy o yrwyr; ac y bydd yn anodd parhau i gyflogi hyd yn oed y gyrwyr cyfredol

Gwnaed cais i'r Adran Drwyddedu ymateb, drwy lythyr i'r gwrthwynebydd.
Nododd y Rheolwr Trwyddedu bod llythyr ac esboniad eisoes wedi eu hanfon at y gwrthwynebydd.

**PENDERFYNWYD CODI HOLL FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI O 19.78% YN UNOL AR HYN A GYTUNWYD MEWN PWYLLGOR 23.6.14. AC A YMGYNGHORWYD ARNO ER MWYN ADENNILL Y COSTAU SYDD YNGHLWM A'R GWASANAETH YN LLAWN.**

Gwnaed cynnig i wahodd y gwrthwynebydd i gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor er mwyn rhoi cyfle i'r unigolyn rannu ei sylwadau. Pwysleisiwyd er hynny, bod y penderfyniad o godi ffioedd wedi ei wneud ac y buasai yn weithredol 15.9.14

**PENDERFYNWYD GOFYN I'R ADRAN DRWYDDEDU GYSYLLTU GYDA'R UNIGOLYN A'I WAHODD I GYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR (8.12.14).**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15a.m. a daeth i ben am 11.00am